

Mae CEDAR wedi ymrwmo i gefnogi gofal claf-ganolog, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, trwy ymchwil a gwerthuso ymyriadau iechyd, technolegau a gwasanaethau'r GIG.

CEDAR: Canolfan ar gyfer Gwerthuso, Aseu Dyfeisiau ac Ymchwil Gofal Iechyd

Newyddion CEDAR

Cyfarwyddwr Newydd yn CEDAR

- Mae Dr Rhys Morris wedi camu i lawr o'i rôl fel Cyfarwyddwr CEDAR, er y bydd yn parhau i fod yn Gyfarwyddwr adrannol Gwyddor Ffisegol, Darlunio, Peirianeg ac Ymchwil (PIER) ac yn ymwneud â gwaith CEDAR. Mae pawb yn CEDAR yn dymuno diolch i Rhys am ei arweinyddiaeth a'i dosturi parhaus.

"Hoffwn ddiolch i holl staff CEDAR am y 5 mlynedd diwethaf. Mae wedi bod yn fraint arwain tîm mor garedig a galluog, a'i weld yn tyfu mewn profiad a hyder. Mae fy amser yn CEDAR wedi bod yn uchafbwynt fy ngyrfa, ond mae'r amser yn iawn i Kathleen ddod yn Gyfarwyddwr. Mae ei phrofiad a'i gwybodaeth helaeth, a'i steil arweinyddiaeth gynhwysol yn rhoi sicrwydd llwyr i mi fod dyfodol CEDAR yn ddisglair ac yn ddiogel."

- Mae Kathleen Withers wedi cael ei phenodi'n gyfarwyddwr newydd ar ôl bod yn Ddirprwy Gyfarwyddwr am yr ychydig flynyddoedd diwethaf, a threulio 15 mlynedd gyda CEDAR - Llongyfarchiadau Kathleen!

Newyddion y Tîm

- Mae llawer o newidiadau cyffrous wedi bod y chwarter hwn yn CEDAR, rydym wedi croesawu dau aelod newydd i dîm CEDAR: Jodie Bartlett (Gweinyddwr CEDAR) a Grace McCutchan (Uwch Ymchwilydd)
- Daeth y gwaith PREM (Mesur Profiad a Adroddir gan Gleifion) dan arweiniad Kathleen Withers, ochr yn ochr â Hawys Waddington a Dr Rob Palmer mewn cydweithrediad â Thrawsnewid Gwerth (rhan o Berfformiad a Gwella'r GIG; a elwid gynt yn Ganolfan Gwerth mewn Iechyd Cymru), yn ail yng Ngwobrau Rhwydwaith Profiad Picker ym Mhrifysgol Birmingham yn ogystal â bod ar y rhestr fer ar gyfer Gwobrau GIG Cymru 2025 sydd ar y gweill.
- Llongyfarchiadau i Harley Anderson, Uwch Ymchwilydd, am ennill yr ail nifer uchaf o bleidleisiau am ei phoster yn canolbwyntio ar waith SWAN (Syndrom Heb Enw) yng nghyfarfod Rhwydwaith Ymchwil Clefydau Prin Cymru.
- Mae astudiaeth INVITE, a oedd yn aseu rhagdybiaethau cleifion a derbynoldeb defnyddio rhwyll i geisio atal hernias endoriadol yn dilyn llawdriniaeth ar yr abdomen, wedi'i chyhoeddi'n ddiweddar. Darparodd Dr Laura Knight o CEDAR y dadansoddiad ansoddol o'r cyfweiliadau a gynhaliwyd yn ystod yr astudiaeth.
- Mae Astudiaeth SPIN-VR, sy'n defnyddio system ffisiotherapi cartref fforddiadwy sy'n seiliedig ar realiti rhithwir gyda'r nod o gadw pobl yn frwdfrydig i gynnal eu ffisiotherapi yn gyson gartref, wedi cyrraedd ei tharged recriwtio o 50 claf: <https://bmjopen.bmj.com/content/15/10/e102994.full>

Cenhadaeth CEDAR yw cydweithio â thimau clinigol i ddarparu ymchwil a gwerthuso ymatebol, effeithiol, o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio ar y claf, er mwyn gwella canlyniadau i bobl yng Nghymru ac yn ehangach.

Yn Y Rhifyn Hwn

Newyddion CEDAR

Uchafbwyntiau diweddar gan y tîm

Uchafbwyntiau'r Prosiect

Darganfyddwch pa brosiectau sydd wedi camu ymlaen yn CEDAR y chwarter hwn.

Sbotolau Staff

Clywch gan Grace McCutchan, Uwch Ymchwilydd yn CEDAR.



SPIN-VR

SENSOR-BASED PHYSIOTHERAPY
INTERVENTION WITH VIRTUAL REALITY

Uchafbwyntiau'r Prosiect

Pipyn



Yng Nghymru, mae tua un o bob pedwar plentyn 4-5 oed yn cael eu hystyried dros bwysau neu'n ordew, yn ôl y Rhaglen Mesur Plant. Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (CTMUHB), mae nifer gynyddol o blant yn disgyn i'r categorïau o fod dros bwysau neu'n ordew. Gall bod dros bwysau neu'n ordew arwain at broblemau iechyd difrifol, gan gynnwys clefyd y galon, diabetes math 2, a hyd yn oed rhai mathau o ganser.

Mae plant sy'n ordew yn fwy tebygol o aros yn ordew pan fyddant yn tyfu i fyny, felly mae'n bwysig helpu plant i aros ar bwysau iach er mwyn atal problemau iechyd yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae rhaglen PIPYN yn helpu plant (3-7 oed) a'u teuluoedd i wneud dewisiadau iach, fel bwyta diet cytbwys a bod yn egniol. Mae'r prosiect hwn yn astudio pa mor dda y mae rhaglen PIPYN yn gweithio ym Merthyr Tudful. Bydd yn cynnwys cyfweiliadau â phobl sydd wedi cymryd rhan yn y rhaglen a'r staff sy'n ei rhedeg. Nod CEDAR yw helpu deall a yw'r rhaglen yn gweithio yn y tymor hir a sut y gellir ei gwella.

Gwerthusiad Proses o'r treial ADAPT-Sepsis (PREADAPT-Sepsis)

Gall defnyddio gwrthfotigau yn briodol achub bywydau cleifion â sepsis a lleihau'r risg o ymwrthedd bacteriol. Gall dangosyddion naturiol o salwch fel lefelau procalcitonin yn y gwaed lywio amseriad y penderfyniad clinigol i roi'r gorau i gwrs o wrthfotigau. Dangosodd y hap-dreial rheoledig aml-ganolfan ADAPT-Sepsis y gall protocol dyddiol dan arweiniad procalcitonin leihau'r defnydd o wrthfotigau yn ddiogel mewn pobl sydd â sepsis tybiedig. Mae'r ymchwil hwn wedi'i gyhoeddi yn y Journal of the American Medical Association (Dark et al., 2025).

Arweiniodd Ymchwilwyr CEDAR werthusiad proses (PREADAPT-Sepsis) ochr yn ochr â'r treial. Fe'i hariannwyd gan y Gymdeithas Gofal Dwys a'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE). Ein nod oedd nodi ffactorau a allai helpu neu rwystro gweithredu profion procalcitonin mewn gofal critigol. Gwahoddwyd staff cyflawni treialon ledled y DU i lenwi holiadur ac i gymryd rhan mewn cyfweiliad. Mae ein canfyddiadau wedi cael eu dadansoddi a'u cyflwyno i'w cyhoeddi'n agored mewn cyfnodolyn a adolygir gan gymheiriaid.

Iaith mewn Iechyd



Mae CEDAR yn gyfrifol am gyfieithu PROMs (Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion) i'r

Gymraeg ar gyfer y tîm Trawsnewid Gwerth, a'r gwasanaeth iechyd ehangach, fel rhan o raglen waith genedlaethol barhaus. Er mwyn sicrhau bod cleifion Cymraeg eu hiaith yn cael gwasanaeth sy'n gyfartal â gwasanaeth cleifion sy'n siarad Saesneg, dilyniar dull gwyddonol cydnabyddedig o gyfieithu i sicrhau bod y dogfennau meddygol yn glir ac yn ddealladwy yn Gymraeg. Mae'r dull hwn yn gofyn am:

- 2x blaen-gyfieithiad (Saesneg-Cymraeg)
- Cymodi (cyfuno'r cyfieithiadau i greu un fersiwn)
- 2x ôl-gyfieithiad (Cymraeg-Saesneg)
- Profi'r cyfieithiad gyda siaradwyr Cymraeg sydd â chyflwr meddygol perthnasol

Er mwyn hwyluso'r broses o brofi'r cyfieithiad, mae CEDAR wedi sefydlu iaith mewn Iechyd yn ddiweddar, sef grŵp o wirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg ac sy'n helpu i brofi cyfieithiadau Cymraeg o PROMs. Mae'r gwirfoddolwyr hyn yn cymryd rhan mewn trafodaeth anffurfiol gydag aelod o staff CEDAR, lle maent yn rhoi adborth ar eglurder a darllenadwyedd y cyfieithiad Cymraeg. Os hoffech chi gael gwybod mwy neu os oes gennych chi ddiddordeb mewn dod yn aelod o Iaith mewn Iechyd, cwblhewch yr holiadur byr drwy sganio'r cod QR isod neu dilynwch ni ar Instagram @iaithmewniechyd_gig.



Arddangosfa ffrwd gwaith - Asesiad Cam Hwyr (LSA) ar gyfer MedTech. Stentiau sy'n echludo cyffuriau a Chynfasau Llithro

Mae CEDAR yn
gweithredu fel grŵp
asesu allanol (EAG)

NICE National Institute for
Health and Care Excellence

ar gyfer NICE (Sefydliad Cenedlaethol dros
Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal), gan gyfrannu at
werthusiadau fel Asesiadau Cam Hwyr (LSAs) sy'n
darparu gwerthusiad o dechnolegau sydd eisoes
yn cael eu defnyddio o fewn y GIG. Fe'u defnyddir
i asesu a oes cyfiawnhad dros amrywiadau pris
rhwyng technolegau, gall hyn fod oherwydd eu
heffeithiolrwydd clinigol, eu budd i gleifion neu eu
nodweddion arloesol. Mae hyn yn llywio canllawiau
NICE i gomisiynwyr y GIG, gwasanaethau caffael
a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i ddewis yr
opsiwn mwyaf effeithiol yn glinigol ac yn hyfyw yn
ariannol. Mae CEDAR wedi cyfrannu at 2 LSA eleni.

Stentiau coronaidd sy'n echludo cyffuriau ar gyfer trin clefyd rhydweliâu coronaidd

Dyfeisiau mewnblanadwy a ddefnyddir wrth drin
clefyd rhydweliâu coronaidd yw stentiau sy'n echludo
cyffuriau. Roedd yr LSA hwn yn cynnwys 29 o stentiau
sy'n echludo cyffuriau gan 14 cwmni gwahanol sydd
i gyd wedi'u cymeradwyo i'w defnyddio yn y GIG ac
oedd ar gael o gadwyn gyflenwi'r GIG. Awgrymodd
data dilynol hirdymor nad oes unrhyw wahaniaethau
ystyrlon rhwyng dyfeisiau o ran 2 ganlyniad
allweddol a ystyriwyd: methiant briw targed (TLR)
a chawdnychiad myocardiadid sy'n gysylltiedig â
phibellau gwaed targed (TVMI). Ar y cyfan, roedd
diffyg tystiolaeth i awgrymu gwahaniaethau mewn
canlyniadau rhwyng y stentiau yn yr is-grwpiau a
nodwyd yn y cwmpas.

Cynfasau llithro ar gyfer symud person ar neu oddi ar wely

Dyfeisiau lleihau ffrithiant yw cynfasau llithro sy'n
cynorthwyo gyda symud person ar neu oddi ar wely
ysbyty neu arwyneb arall. Yn yr LSA hwn, roedd yr
holl dechnolegau ar gael ar gadwyn gyflenwi'r GIG.
Roedd bron i 200 o dechnolegau wedi'u dosbarthu
fel cynfasau llithro ar adeg ein hasesiad. Canfu'r
asesiad fod cynfasau llithro golchadwy yn rhatach
na chynfasau llithro i'w defnyddio gan un claf yn y
rhan fwyaf o achosion, er bod problemau wedi'u
nodi gyda gweithredu'r rhain. Canfu'r modelu
economaidd y gallai gynfasau llithro ar y safle fod
yn rhatach na chynfasau sydd angen cael eu tynnu
oherwydd gostyngiad yn y nifer o weithwyr gofal
sydd eu hangen i symud claf. Fodd bynnag, ar y
cyfan, dim ond tystiolaeth glinigol wan sydd sy'n
dangos unrhyw wahaniaeth mewn nodweddion
cynfasau llithro ychwanegol neu arloesol.

Sbotolau Staff

Rydym yn siarad â Dr Grace McCutchan,
Uwch Ymchwilydd yn CEDAR.



Dywedwch ychydig amdanoch chi a'ch rôl:

Ymunais â CEDAR yn ddiweddar fel Uwch
Ymchwilydd. Mae fy nghefnidir mewn
Seicoleg, Gwyddor Ymddygiad ac Iechyd y
Cyhoedd. Yn fy rôl flaenorol fel Darlithydd
ym Mhrifysgol Caerdydd a Chanolfan
Ymchwil Canser Cymru, canolbwyntiodd
fy ymchwil ar leihau anghydraddoldebau
canser. Byddaf yn gweithio ar CADARN -
prosiect Menter Canser Moondance i sicrhau
mynediad cyflym a chyfartal i dreialon cancer
ledled Cymru.

Pa dri gair fydddech chi'n eu defnyddio i ddisgrifio CEDAR?

Croesawgar, arloesol, o ansawdd uchel.

Beth yw eich hoff ran o'ch swydd?

Gweithio gyda chleifion a staff gofal iechyd i
deimlo fy mod i'n gwneud gwahaniaeth.

Dewisiwch uwch-bŵer?

Dewisiwch uwch-bŵer?

Beth yw ffaith amdanoch chi y byddai'n synnu pobl?

Er gwaethaf fy ymdrechion gorau, ni allaf
wahaniaethu rhwyng fy chwith a'm dde - dim
syniad pam (efallai fy ymennydd dyslecsig!).

Os oes gennych gynnig
ymchwil ac yr hoffech
siarad â'n tîm, cysylltwch
â ni neu llenwch
ein [ffurflen gais am
gefynogaeth](#)

Ewch i'n gwefan:

